

PWYLLGOR CRAFFU IECHYD A GWASANAETHAU CYMDEITHASOL

DYDD IAU, 9 MAWRTH 2023

PRESENNOL Cyngorydd H.A.L. Evans (Cadeirydd) (Yn y Siambr)

Cynghorwyr (Yn y Siambr):

B. Davies M. James H. Jones

Cynghorwyr (Yn rhithwir):

M. Donoghue A. Evans J.P. Jenkins D. Owen
D. Thomas (yn lle K. Davies) F. Walters P.T. Warlow J. Williams

Hefyd yn bresennol (Yn y Siambr):

A. Bracey, Pennaeth Gofal Cymdeithasol i Oedolion
A. Williams, Pennaeth Y Gwasanaethau Integredig
G. Morgans, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Addysg a Phlant
R. Robertshaw, Cydlynnydd Amddiffyn Plant
S. Rees, Cyfieithydd Ar Y Pryd
R. Morris, Swyddog Cefnogi Aelodau
E. Bryer, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

Hefyd yn bresennol (Yn rhithwyr):

R. Page, Uwch Reolwr Cymorth Busnes
S. Hendy, Swyddog Cefnogi Aelodau

Y SIAMBR - NEUADD Y SIR, CAERFYRDDIN, AC O BELL - 10.00 yb - 11.10 yb

1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Cafwyd ymddiheuriad am absenoldeb gan y Cyngorydd K. Davies.

**2. DATGANIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL GAN GYNNWYS UNRHYW
CHWIPIAU PLEIDIAU A RODDIR MEWN YMATEB I UNRHYW EITEM AR YR
AGENDA.**

Y Cyngorydd	Rhif(au) y Cofnod	Y Math o Fuddiant
J.P. Jenkins	5. Cynlluniau Cyflawni Is-adrannol Drafft 2023-24 ar gyfer: Gwasanaethau Integredig, Comisiynu a Chymorth Busnes a Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol i Oedolion.	Yn gweithio i sefydliad sy'n darparu Gwasanaethau Gofal Dydd a Chartref i Oedolion ag anableddau dysgu (Gollyngiad i siarad ond nid pleidleisio).

Ni chafwyd dim datganiadau ynghylch unrhyw chwip waharddedig.

3. CWESTIYNAU GAN Y CYHOEDD (NID OEDD DIM WEDI DOD I LAW)

Dyweddod y Cadeirydd nad oedd dim cwestiynau wedi dod i law gan y cyhoedd.

4. STRATEGAETH EIRIOLAETH OEDOLION RANBARTHOL

Ystyriodd y Pwyllgor y Strategaeth Eiriolaeth Oedolion Ranbarthol; diben y strategaeth oedd ceisio cymeradwyaeth i strategaeth eiriolaeth oedolion ranbarthol newydd sydd wedi'i datblygu gyda rhanddeiliaid drwy'r Gweithgor Eiriolaeth. Nod y Strategaeth oedd llunio trefniadau comisiynu i fodloni'r gofynion i sicrhau bod eiriolaeth o ansawdd da ar gael yn hwylus ac yn deg i'r rhai sydd ei eisiau, neu ei angen, yn rhanbarth Gorllewin Cymru yng Ngheredigion, Sir Gaerfyrddin a Sir Benfro.

Atgoffwyd y Pwyllgor mai'r pum maes blaenoriaeth allweddol oedd â'r nod o wella canlyniadau i'r rheiny oedd angen eiriolaeth oedd:

- Blaenoriaeth 1. Cynnal a datblygu ymhellach ein dull cydgynhyrchiol.
- Blaenoriaeth 2. Cynyddu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o eiriolaeth.
- Blaenoriaeth 3. Sicrhau bod eiriolaeth ar gael yn hwylus ac yn deg.
- Blaenoriaeth 4. Sicrhau bod eiriolaeth o safon sy'n gyson uchel.
- Blaenoriaeth 5. Cynnal arbenigeddau a mathau anstatudol o eiriolaeth.

Bu i'r Aelod Cabinet dros lechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol achub ar y cyfle i ddiolch i Joshua Summers (awdur yr adroddiad) am ysgrifennu'r adroddiad.

Mewn ymateb i gwestiwn ynghylch cefnogaeth ariannol ychwanegol ar gyfer Eiriolaeth, rhoddwyd gwybod i'r Pwyllgor fod arian grant ychwanegol wedi'i sicrhau o dan y Gronfa Integredig Ranbarthol.

Croesawodd y Cadeirydd fod hyfforddiant yn cael ei roi i helpu unigolion i siarad drostynt eu hunain.

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL gymeradwyo'r adroddiad.

CYNLLUNIAU DRAFFT CYFLAWNI GWASANAETH 2023-24: GWSANAETH INTEGREDIG, TÎM COMISYNU A CHYMORTH BUSNES & GOFAL CYMDEITHASOL I OEDOLION

[Bu i'r Cynghorydd J.P. Jenkins ddatgan diddordeb cyn i'r Pwyllgor ystyried y Cynllun Cyflawni Drafft ar gyfer Cymorth Busnes a Chomisiynu. Arhosodd yn y cyfarfod ond ni bleidleisiodd.]

Ystyriodd y Pwyllgor y Cynlluniau Cyflawni Rhanbarthol Drafft ar gyfer Gwasanaethau Integredig, Comisiynu a Chymorth Busnes a Gofal Cymdeithasol i Oedolion. Mae'r cynlluniau hyn yn pennu'r camau a'r mesurau strategol y byddai'r gwasanaethau o fewn yr Is-adran hon yn eu gweithredu er mwyn i'r Cyngor wneud cynnydd mewn perthynas â'i Amcanion Llesiant, ei flaenoriaethau thematig a blaenoriaethau'r gwasanaeth.

Nodwyd bod camau a mesurau ar gyfer cyflawni Ymrwymadau Datganiad Gweledigaeth y Cabinet hefyd wedi'u cynnwys.

Gofynnwyd nifer o gwestiynau. Dyma'r prif faterion:

Cynllun Gwasanaethau Integredig

- Mewn ymateb i eglurhad ynghylch Clwstwr Teifi, dywedodd Pennaeth y Gwasanaethau Integredig fod ardaloedd y Byrddau lechyd yn wahanol i ardaloedd y Siroedd. O safbwynt cynllunio'r Bwrdd lechyd, er bod rhan Teifi o'r clwstwr yn dod o dan Sir Ceredigion, cyfrifoldeb Sir Gaerfyrddin oedd y swyddogaeth Gofal Cymdeithasol. Dywedwyd nad oedd hyn yn cael effaith real ar wasanaethau, ar wahân i weithio gyda thîm gwahanol ar gyfer yr ardal arbennig honno o'r Sir.
- Mewn ymateb i bryder a godwyd ynghylch risg LAS0002 a'r ffaith bod y Bwrdd lechyd wedi rhoi'r gorau i'w gyfraniadau tuag at leoliadau Adran 117 ar gyfer pobl hŷn ac anabledau corfforol, esboniodd swyddogion fod hyn yn benodol ar gyfer gofal preswyl a bod cyllid yn ddibynnol ar y math o grŵp cleientiaid. Nodwyd bod rhaniad 50/50 o safbwynt oedolion ifanc. O safbwynt pobl hŷn/anabledau corfforol, roedd trefniant gwahanol wedi bod ar waith gan y Bwrdd lechyd am gyfnod ac roedd ymdrechion wedi'u gwneud ar lefel ranbarthol i gael tegwch ar draws y gwahanol grwpiau cleientiaid. Roedd gwaith wedi dechrau ar ddatblygu polisi traws-asiantaeth ranbarthol, a oedd yn cynnig rhaniad 50/50 ar draws yr holl grwpiau, ond yn anffodus penderfynodd y Bwrdd lechyd gyhoeddi polisi Bwrdd lechyd yn unig yn hytrach na pholisi partneriaeth. Gofynnodd aelodau'r Pwyllgor am i lythyr gael ei anfon at y Bwrdd lechyd yn mynegi eu pryderon ynglŷn ag annhegwch y trefniadau cyllido hyn.
- Dywedodd swyddogion mai dehongliad yr Awdurdod yn gyfreithiol oedd y dylid rhannu'r cyllid Adran 117 50/50 rhwng yr Awdurdod Lleol a'r Bwrdd lechyd. Fodd bynnag, roedd dehongliad y Bwrdd lechyd yn wahanol. Eglurwyd ymhellach fod Adran 117 mewn perthynas ag adran benodol o'r Ddeddf lechyd Meddwl. Pe bai person yn cael ei gadw yn yr ysbyty o dan rai adrannau o'r Ddeddf lechyd Meddwl byddai ganddynt yr hawl i ôl-ofal. Fel Awdurdod Lleol, y nod oedd edrych ar gysondeb ar draws yr holl wasanaethau.
- Yn unol â Gweledigaeth y Cabinet i weithio gyda Bwrdd lechyd Prifysgol Hywel Dda i ddarparu gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol integredig di-dor lle bynnag y bo modd, dywedwyd bod gan Hywel Dda raglen, yr oedd llawer o oedi wedi bod mewn perthynas â hi, i agor canolfan iechyd amlddisgyblaethol yn Cross Hands a fyddai'n arwain at gau sawl meddygfa yn yr ardal. Gofynnwyd a oedd yr Awdurdod wedi ymgynghori â'r Bwrdd lechyd ynghylch darparu cyfleusterau yn y ganolfan. Mewn ymateb dywedodd swyddogion fod y rhaglen wedi cyrraedd cam olaf yr achos busnes a bod Llywodraeth Cymru yn cefnogi'r cynnig. Byddai'r ganolfan yn ganolfan integredig aml-asiantaeth a fyddai'n cynnwys yr Awdurdod Lleol, y Bwrdd lechyd a Gwasanaethau'r Heddlu. Byddai'r ganolfan yn cynnwys ystod eang o wasanaethau wedi'u hintegreiddio'n llawn ac yn safle i'r meddygfeydd presennol a oedd wedi'u lleoli ar hyn o bryd mewn safleoedd nad oeddent bellach yn addas at y diben. Byddai cydleoli yn creu gwasanaeth mwy gwydn a byddai manteision economaidd.
- Gofynnwyd a allai Rhagnodwyr Cymdeithasol fod allan yn y gymuned yn fwy ac mewn cysylltiad â phobl nad oedd angen ymweld â'r feddygfa arnynt o reidrwydd. Eglurwyd bod y model presennol yn seiliedig ar atgyfeiriadau gan Feddygon Teulu ac yn dal i fod yn brosiect cymharol newydd. Dywedwyd bod y gwasanaeth ar waith bellach ar draws y sir, a'r

gobaith yn y pen draw oedd ei ddatblygu i alluogi atgyfeiriadau o ffynonellau ehangach. Ar hyn o bryd, y flaenoriaeth oedd rheoli'r galw presennol gan feddygfeydd.

- Mewn ymateb i eglurhad am y ffigyrau gwariant ar gyfer Cwm Aur, dywedwyd wrth y Pwyllgor mai Cwm Aur oedd un o'r cynigion a gytunwyd gan y Cyngor ar gyfer gwneud arbedion. Pobl oedd yn gweithredu'r cynllun, ac yn anffodus nid oedd digon yn byw yn y fflatiau, a oedd yn golygu bod y model yn gostus iawn i'w redeg. Dywedwyd bod trefniadau gofal amgen mwy cost-effeithiol yn cael eu rhoi ar waith. Byddai hyn yn cael ei wneud drwy ddefnyddio fframweithiau gofal cartref presennol.

Cynllun Cymorth Busnes a Chomisiynu

- Gan gyfeirio at y tîm adfer dyledion, gofynnwyd cwestiwn ynghylch faint o ddyled oedd gan yr Awdurdod ar hyn o bryd. Dywedodd yr Uwch-reolwr Cymorth Busnes fod angen iddo gadarnhau'r lefel bresennol a rhoddodd wybod i'r Pwyllgor ei fod yn gymhleth oherwydd y taliadau gohiriedig oedd yn cronni bob dydd. Cadarnhaodd y byddai'r wybodaeth yn cael ei rhannu a dywedodd mai tua £16m y flwyddyn oedd y gyllideb am ffioedd preswyl, ac ar unrhyw adeg gallai fod tua 5% o'r gyllideb sydd heb ei thalu fel dyled ddrwg. Rhoddwyd sicrwydd bod ymyriadau cynnar wedi'u targedu ar waith yn y tîm adfer dyledion, mewn ymgais i'w atal rhag mynd yn ddyled ddrwg.

Cynllun Gofal Cymdeithasol i Oedolion

- Gan gyfeirio at garreg filltir M4 a'r risg gysylltiedig, gofynnwyd am ddiweddariad ar ddatblygu'r ailfodelu a thyfu gwasanaeth gofal cartref mewnol safonol, cynaliadwy ac effeithiol. Dywedodd swyddogion fod problemau recriwtio a chadw staff wedi bod, ond bod y sefyllfa wedi gwella. Roedd ymgyrchoedd recriwtio a digwyddiadau pwrpasol yn cael eu trefnu ac roedd cynlluniau ar waith eisoes i gynyddu gwasanaethau mewnol.
- O ran pryder ynghylch y gallu i gyflawni cyfrifoldebau deddfwriaethol oherwydd methu recriwtio a chadw'r gweithlu (yn enwedig mewn perthynas â gofal cartref, gwaith cymdeithasol a Gweithwyr Proffesiynol Cymeradwy ym maes lechyd Meddwl (AMHPs), cadarnhaodd y Pennaeth Gofal Cymdeithasol i Oedolion bod hyn yn bryder a bod ffocws ar gael staff presennol i hyfforddi / ennill cymwysterau a byddai'n rhaid i staff, yn ôl eu contract, barhau i weithio i'r Awdurdod am o leiaf 3 blynedd ar ôl ennill eu cymhwyster.

PENDERFYNWYD:

5.1	Bod llythyr yn cael ei anfon i'r Bwrdd lechyd yn mynegi pryderon ynghylch annhegwch y trefniadau cyllido presennol o ran Adran 117.
5.2	Bod y cynlluniau cyflawni drafft 2023-24 ar gyfer Gwasanaethau Integredig, Cymorth Busnes a Chomisiynu a Gofal Cymdeithasol i Oedolion yn cael eu derbyn.

6. GWASANAETHAU PLANT CYNLLUN DRAFFT CYFLAWNI GWASANAETH 2023-24

Rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth i Gynllun Cyflawni Gwasanaeth Drafft y Gwasanaethau Plant a oedd yn pennu'r camau a'r mesurau strategol y byddai'r gwasanaethau o fewn yr Is-adran yn eu gweithredu er mwyn i'r Cyngor wneud cynnydd mewn perthynas â'i Amcanion Llesiant, ei flaenoriaethau thematig a blaenoriaethau'r gwasanaeth.

Dyweddodd yr Aelod Cabinet dros lechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol fod y Strategaeth Gorfforaethol wedi ei chymeradwyo gan y cyngor llawn (yn dilyn ymgynghoriad) ar 1 Mawrth ac mai'r Amcanion Llesiant perthnasol i'r pwyllgor craffu hwn oedd:

- Galluogi ein plant a'n pobl ifanc i gael y dechrau gorau posibl mewn bywyd (Dechrau'n Dda).

Nododd y Pwyllgor mai elfennau'r cynllun cyflawni gwasanaethau a oedd yn berthnasol i faes gorchwyl y Pwyllgor Craffu hwn oedd:

- Gwasanaethau Cymdeithasol i Blant
- Gwasanaethau Mabwysiadu
- Y Blynyddoedd Cynnar, Cymorth i Deuluoedd ac Atal
- Rhianta a Llesiant Plant
- Diogelu (Gorllewin y Sir) a Mabwysiadu
- Anabledd Corfforol a Nam ar y Synhwyrâu
- Gwasanaethau lechyd Meddwl Plant a'r Glasoed
- Arweinydd Rhianta Corfforaethol
- Gwasanaethau Maethu
- Cefnogi Teuluoedd
- Diogelu Plant
- Anghenion Cymhleth a Phontio
- Cydgysylltydd Amddiffyn Plant
- Diogelu (Dwyrain y Sir) a Gwella Gwasanaethau

Codwyd y cwestiynau/sylwadau canlynol wrth drafod yr adroddiad:

- Mynegwyd pryder ynghylch symud plant i wahanol leoliad addysgol/ysgol. Gofynnwyd am ddiweddariad ynglŷn â'r sefyllfa o ran gwella'r cysylltiad rhwng gweithwyr cymdeithasol ac ysgolion, fel bo'r ysgol yn hollol ymwybodol o'r holl anghenion pan fo plant yn cyrraedd lleoliad newydd. Dywedodd swyddogion fod pob ymdrech yn cael ei gwneud i beidio â symud plant oedd yn derbyn gofal a bod yna dîm a oedd yn edrych ar y mater hwn. Pwysleisiwyd bod y berthynas roedd plant yn ei meithrin o fewn yr ysgol yn bwysig. Fodd bynnag, roedd achlysuron pan oedd symud ysgol er mwyn bod yn y gymuned roeddent yn byw ynddi o fudd i'r plant. O dan yr amgylchiadau hyn byddai'r ysgolion yn siarad â'i gilydd, a byddai'r cynlluniau'n cael eu trafod yng nghyfarfod adolygu'r plentyn sy'n derbyn gofal. Rhoddodd y Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Plant sicrwydd i'r Pwyllgor fod y broses yn cael ei hadolygu ar hyn o bryd gan y Pennaeth Plant a Theuluoedd a'r Pennaeth Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant.
- Gofynnwyd i swyddogion sut byddai'r Cynnig 30 awr o Ofal Plant yn cael ei hyrwyddo gan ei bod yn ymddangos bod diffyg ymwybyddiaeth ynglŷn â'r ddarpariaeth hon. Dywedodd y Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau

Plant fod y Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd yn mynd ati i hyrwyddo'r gwasanaeth hwn a bod gwaith parhaus yn digwydd gyda phartneriaid i hyrwyddo'r gwasanaeth. Dywedwyd y byddai cyflwyno'r gwasanaeth digidol cenedlaethol newydd yn ei gwneud hi'n haws i rieni gael gwasanaethau a chael gwybod pa gymorth oedd ar gael iddynt. Dywedodd swyddogion wrth y Pwyllgor fod y niferoedd oedd yn manteisio ar y Cynnig yn Sir Gâr yn uchel. Er mwyn sicrhau bod teuluoedd cymwys yn ymwybodol o'r cynnig hwn roedd yr Awdurdod wrthi'n recriwtio swyddog cyfathrebu i gysylltu â'r teuluoedd hyn.

Penderfynwyd bod yr adroddiad yn cael ei dderbyn.

7. ADRODDIAD PERFFORMIAD CWARTER 3 - 2022/23 YN ARBENNIG I'R PWYLLGOR CRAFFU HWN

Bu'r Pwyllgor yn ystyried Adroddiad Monitro Perfformiad ar gyfer Chwarter 3, a oedd yn nodi'r cynnydd a wnaed gogyfer â'r camau gweithredu a'r mesurau yn y Strategaeth Gorfforaethol a'r 13 Amcan Llesiant oedd yn berthnasol i faes gorchwyl y Pwyllgor.

Nododd y Pwyllgor nad oedd 5 o'r 13 amcan yn cydymffurfio â'r targed, a bod y mesurau oedd ar waith yn cael effaith gadarnhaol o ran mynd i'r afael â hynny.

PENDERFYNWYD bod yr adroddiad yn cael ei dderbyn.

8. EGLURHAD AM BEIDIO Â CHYFLWYNO ADRODDIAD CRAFFU

Cafodd y Pwyllgor esboniad dros beidio â chyflwyno'r adroddiadau craffu canlynol:

- Adroddiad Blynyddol - Diogelu
- Strategaeth Gorfforaethol

PENDERFYNWYD nodi'r eglurhad am beidio â chyflwyno'r adroddiad.

9. EITEMAU AR GYFER Y DYFODOL

PENDERFYNWYD nodi'r rhestr o eitemau ar gyfer y dyfodol a oedd i'w hystyried yn y cyfarfod nesaf ar 17 Ebrill 2023.

10. LLOFNODI YN GOFNOD CYWIR COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR 24AIN IONAWR, 2023

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL lofnodi cofnodion cyfarfod y Pwyllgor oedd wedi ei gynnal ar 24 Ionawr 2023 gan eu bod yn gywir.

CHAIR

DATE